

## **Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion**

**Gwybodaeth ychwanegol at y ddadl ar drefniadau gweithrediaeth awdurdodau lleol ar 23 Tachwedd 2004, a gyhoeddwyd gan Sue Essex, y Gweinidog Cyllid, ar 8 Rhagfyr 2004**

### **At Michael German:**

Ysgrifennaf yn ychwanegol at fy ymateb i'r cwestiynau a ofynnwyd gennych yn ystod y ddadl ar Reoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Diwygio) (Cymru) 2004 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Diwygio) (Cymru) 2004.

Gofynnwyd gennych, yn gyntaf, pryd y byddai'r rheoliadau presennol yn cael eu diwygio ymhellach yn unol â'r angen a pha ddarpariaethau a fyddai wedi'u cynnwys ynddynt. Ni chafodd unrhyw amserlen ddeddfwriaethol ei llunio ar gyfer y rheoliadau hyn hyd yn hyn ond yr wyf yn awyddus y dylai'r broses newydd o ymgynghori ddechrau mor agos i ddechrau'r flwyddyn ag sy'n ymarferol bosibl. Ar hyn o bryd, ni chredaf y byddai'n ddefnyddiol rhestru'r eitemau a gwmpesir, oherwydd bydd angen arfarniad newydd gan fy swyddogion cyn paratoi'r ddogfen ymgynghori. Byddaf yn sicrhau, wrth gwrs, y byddwch yn cael copïau o unrhyw ddogfennau neu reoliadau drafft o'r fath cyn gynted â phosibl.

Yn ail, gofynnwyd gennych pam bod angen diwygio'r rheoliadau hyn mor aml ac, yn hytrach na rhestru darpariaethau na ddylent fod yn swyddogaethau i'r bwrdd gweithredol (neu fwrdd y cyngor) yn unig, a ddylent ddechrau o'r rhagdybiaeth y byddai'r swyddogathau'n cael eu dyrannu i'r cyngor llawn y darperir ar eu cyfer fel arall yn y rheoliadau.

Deur o hyd i ateb hyn yn adran 13 Deddf Llywodraeth Leol 2000. Ceir darpariaeth, oni bai y nodir fel arall mewn deddfwriaeth, y bydd holl swyddogaethau awdurdodau lleol yn dod yn swyddogaethau gweithredol. Golyga hyn bod angen diwygio'r rheoliadau lle bynnag y daw'n eglur na fydd rhyw swyddogaeth bresennol neu newydd yn swyddogaeth i'r bwrdd gweithredol yn unig ac na eglurwyd hyn o fewn pa ddeddfwriaeth bynnag a gyflwynodd y swyddogaeth. Yn achos cynghorau sy'n rhoi trefniadau amgen ar waith, mae rheoliadau'r Cynulliad yn gwneud darpariaethau tebyg ar gyfer dyrannu swyddogaethau i fwrdd y cyngor; ac felly mae angen diwygio'r rheini hefyd.

Dylid cofio y dyrennir y rhan fwyaf o swyddogaethau pwysig y cyngor i'r bwrdd gweithredol. Felly, pe bai'r sefyllfa'n cael ei wrthdroi yn y ffordd a gynigiwyd gennych, byddai llawer mwy o ddarpariaethau yn cael eu cwmpasu yn y rheoliadau a byddai angen mynd i'r afael â swyddogaethau newydd yn amlach ac o bosibl bydd eu hangen ar fwy o frys. Ni chredaf y byddai hon yn ymagwedd ymarferol.

**Gwybodaeth ychwanegol at y ddadl ar Reoliadau Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor ar 23 Tachwedd 2004, a gyhoeddwyd gan Sue Essex, y Gweinidog Cyllid, ar 3 Rhagfyr 2004**

### **At Michael German:**

Yn ystod y ddadl ar 23 Tachwedd 2004 ar y rheoliadau uchod cytunais i ysgrifennu atoch ynglŷn â sut y mae'r disgowntiau'n effeithio ar sylfaen y dreth gyngor ac ynglŷn â'ch ymholiad ynghylch y dyddiadau yn y rheoliadau.

Lluniwyd y ddeddfwriaeth wreiddiol yn cwmpasu cyfrifo sylfaen y dreth gyngor ar 10 Mawrth 1992. Yr oedd hyn yn caniatáu i awdurdodau ystyried eu hamcangyfrif o'r holl

ostyngiadau o ran sylfaen y dreth gyngor a oedd yn debygol yn ystod y flwyddyn ariannol ddilynol, yn cynnwys pob eithriad a disgownt.

Y bwriad oedd na ddylai awdurdodau lleol golli allan o ganlyniad i eithriadau a disgowntiau. Y rheswm dros hyn yw bod system gyllid y llywodraeth leol yn ceisio cydraddoli gallu pob awdurdod i godi arian o'i hadnoddau ei hun. Golyga hyn po leiaf yw gallu awdurdod i godi'r dreth gyngor, mwyaf oll y bydd yn ei gael o ran cymorth canolog gan y Cynulliad i wneud iawn am hyn.

Gan gyfeirio at eich cwestiwn o ran y cyfnod ar gyfer cyfrifo sylfaen treth gyngor awdurdod, mae rheoliadau 1995 yn nodi cyfnod cyfrifo o 1 Tachwedd tan 31 Rhagfyr. Ar yr adeg y cyflwynwyd y rheoliadau hyn, awgrymwyd y byddai'n briodol pennu'r cyfnod cyfrifo o'r dyddiad y daeth i rym sef 24 Tachwedd tan 31 Ionawr. Noda'r rheoliadau, ar ôl y flwyddyn hon, y bydd y dyddiad yn mynd yn ôl i'r dyddiad a nodwyd mewn rheoliadau cynharach, sef 1 Tachwedd tan 31 Rhagfyr.

Gobeithio bod hyn yn ymdrin â'r pwyntiau a godwyd gennych yn ddigonol.